## Y PWYLLGOR LLYWODRAETH LEOL A THAI

## DOSBARTHU CYLLID LLYWODRAETH LEOL: ADOLYGIAD O'R FFORMWLA ASESIAD GWARIANT SAFONOL (SSA)

### Diben

1. Cyflwynir y papur hwn er mwyn rhoi cyfle i'r Pwyllgor fynegi barn ar adroddiad terfynol yr Is-Grw^p Dosbarthu ar ddatblygiad fformwla Asesiad Gwariant Safonol newydd i Gymru.

### Crynodeb

2. Cafodd y fformwla newydd ei ddatblygu gan Is-Grw^p Dosbarthu'r Fforwm Ymgynghorol ar Gyllid, sef un o weithgorau'r Cyngor Partneriaeth. Ei bwriad oedd datblygu fformwla sy'n rhoi darlun llawnach o'r ffactorau amrywiol sy'n pennu gwariant awdurdodau lleol. Uwch gynrychiolwyr yr awdurdodau lleol (yn bennaf trysoryddion, cyfarwyddwyr cyllid neu brif weithredwyr) yw aelodau'r Is-grw^p Dosbarthu. Y mae dau o aelodau annibynnol, ac y mae'r cadeirydd a'r ysgrifenyddiaeth yn swyddogion yn Is-adran Cyllid Llywodraeth Leol. Gwnaed yr holl waith ystadegol, ac eithrio gwaith ar boblogaeth a dulliau dosbarthu, gan Ysgrifenyddiaeth Ystadegol y Cynulliad.

3. Yn dilyn yr ymgynghoriad, argymhellodd y DSG newidiadau i 7 o asesiadau'r gwasanaeth a roddwyd fel enghreifftiau yn Atodiad 5 o'i adroddiad. Mae'r grw^p wedi argymell hefyd bod rhan o'i gylch gwaith yn cynnwys parhau i weithio ar nifer o feysydd lle mae diffyg gwybodaeth yn golygu ei fod yn amhosibl i roi ar brawf argymhelliad tîm Prifysgol Abertawe/Poin Economics, a oedd yn gyfrifol am y gwaith cynharach ar yr adolygiad, neu lle mae'r ymatebion i'r ymgynghoriad wedi codi pwyntiau y dylid eu hystyried yn fwy trylwyr na wnaed ar gyfer setliad 2001-02. Mae hyn yn tynnu sylw at newidiadau posibl i'r fformwla yn y dyfodol a sut y dylid eu hymgorffori.

4. Mae'r adroddiad terfynol hwn yn rhoi sylw manwl i'r ffordd yr ymdrinnir â thlodi a phrinder yn y fformwla newydd arfaethedig, gan gydnabod ac ymateb i'r pryderon a fynegwyd yn ystod yr ymgynghoriad.

### Amseriad

5. Bydd y Fforwm Ymgynghorol ar Gyllid (9 Hydref) a'r Cyngor Partneriaeth (16 Hydref) yn trafod y fformwla newydd.

6. Bydd yr adroddiad terfynol yn cael ei drafod yn y cyfarfod llawn ar 19 Hydref. Os bydd y fformwla newydd yn cael ei defnyddio i ddosbarthu setliad refeniw 2001-02 i'r llywodraeth leol, caiff ei chyhoeddi yn Adroddiad Cyllid Llywodraeth Leol yn hwyrach yn yr hydref, yn unol â Rheol Sefydlog 19.

**Cefndir**

***Fframwaith Deddfwriaethol a Chydymffurfio***

7. Defnyddir fformwla SSA yn sail i ddosbarthu grant cynnal cyllid rhwng awdurdodau lleol yng Nghymru. Oherwydd hyn, fe'i cyhoeddir yn flynyddol yn Adroddiad Cyllid Llywodraeth Leol, o dan adrannau 78 a 78A yn Neddf Cyllid Llywodraeth Leol 1998 ac i gydymffurfio â Rheol Sefydlog 19 y Cynulliad.

***Goblygiadau Ariannol***

8. Mae'r Is-adran Cynllunio Ariannol wedi cael cyfle i ystyried y papur pwyllgor hwn ac wedi nodi nad oes goblygiadau ariannol ychwanegol i'r Cynulliad, am mai diben yr adroddiad yw ystyried ail-ddyrannu'r adnoddau a gymeradwyir gan y Cynulliad.

**Ystyriaeth**

9. Dechreuodd gwaith yr Is-grw^p Dosbarthu ar y fformwla ym mis Mawrth 1999, pan roddwyd gorchymyn iddo ystyried yr holl argymhellion a wnaed gan Brifysgol Abertawe yn ei adolygiad annibynnol o'r fformwla. Gwnaed y gwaith ar wasgariad poblogaeth a dangosyddion aneddiadau ar ran yr Is-grw^p Dosbarthu gan Poin Economics, a adroddodd yn ôl ym mis Rhagfyr 1999.

10. Cyflwynwyd y cynigion i'r llywodraeth leol, i Aelodau'r Cynulliad ac i'r wasg mewn seminar a gynhaliwyd ar y cyd â'r Cynulliad ac Awdurdod Datblygu Cymru yn Llandrindod ar 3 Gorffennaf. Fe'u trafodwyd gan y Fforwm Ymgynghorol ar Gyllid ar 5 Gorffennaf, a chan y Cynulliad ar 11 Gorffennaf, pan y'u gwrthodwyd. Cafodd nifer o welliannau i'r cynigion eu cymeradwyo, fel a ganlyn :

> 1 (Janet Ryder) "yn ystod y cyfnod ymgynghori, bydd y Cynulliad Cenedlaethol yn gofyn i'r Is-grw^p roi ystyriaeth bellach i:
>
> - y gyfran o'r SSA a ddyrennir fel iawndal oherwydd 'prinder'

- y lefel amrywiol o ‘angen heb ei ddiwallu’, mewn sectorau fel addysg ar ôl 16, cynnal a chadw ffyrdd a gwella pontydd er mwyn cludo’r lorïau trymach y mae San Steffan wedi’u caniatáu."

2 (Janet Ryder) "mae’r Cynulliad Cenedlaethol hefyd yn nodi y bydd gostyngiad sylweddol yn SSA rhai awdurdodau os na chaiff adnoddau ychwanegol eu neilltuo ac y mae felly’n argymell y dylid darparu’r adnoddau ychwanegol hyn dros dro o’r cronfeydd cyllid sydd i’w cael o ganlyniad i hyblygrwydd ‘diwedd y flwyddyn’."

3 (Phil Williams) "nodi na ellir gweithredu rhai o argymhellion Prifysgol Abertawe/Pion Economics, sy’n ymwneud ag ardaloedd lle bo ffyniant a thlodi’n cydfodoli oddi mewn i un awdurdod, gan nad yw pob awdurdod wedi darparu’r wybodaeth angenrheidiol. Argymell gosod targedau i holl awdurdodau Cymru gasglu’r wybodaeth hon."

4 (Peter Black) "Mae’r Cynulliad Cenedlaethol yn annog yr Ysgrifennydd Cyllid a’r Ysgrifennydd dros Lywodraeth Leol a Thai i sicrhau bod mwy o arian yn cael ei ychwanegu at Setliad Llywdoraeth Leol, er mwyn sicrhau nad oes yr un Cyngor ar ei golled o ganlyniad i’r fformwla newydd ac nad yw cyfataledd Treth y Cyngor yng Nghymru’n codi’n uwch na lefel chwyddiant 2000/01."

5 (David Davies) "Mae’r Cynulliad yn gresynu’r gostyngiad o 8% i 6% yn y dangosyddion ynghylch prinder a gwledigrwydd yn y fformwla, er gwaethaf addewidion i’r gwrthwyneb. Mae’r Cynulliad yn cydnabod y dylai prinder a gwledigrwydd fod yn ffactorau allweddol yn y fformwla newydd.

**Ymatebion i’r Ymgynghoriad**

11. Yn dilyn ymgynghoriad yn ystod yr haf, cafodd y cynigion i newid y fformwla a wnaed ar sail tystiolaeth eu hystyried gan yr Is-grw^ p Dosbarthu, gan gynnwys yr aseswyr annibynnol, mewn dau gyfarfod ym mis Medi, cyn paratoi’r adroddiad terfynol. Cafodd aelodau’r Is-grw^p gopïau o bob ymateb. Gwelodd yr Athro Phil Murphy, aelod o dîm Prifysgol Abertawe a oedd yn gyrfrifol am yr adroddiad gwreiddiol ar y fformwla SSA, bob ymateb hefyd ac y mae wedi mynegi barn ar y gwaith terfynol.

12. Derbyniwyd 50 o ymatebion, gan gynnwys ymateb oddi wrth bob awdurdod unedol yng Nghymru. Cafwyd ymateb gan y blaid Geidwadol a’r Democratiaid Rhyddfrydol, yn ogystal â nifer o Aelodau’r Cynulliad. Mae copïau o bob ymateb yn llyfrgell y Cynulliad. Cyfarfu’r swyddogion â chynrychiolwyr chwe awdurdod lleol ac un AC yn ystod cyfnod yr ymgynghori, er mwyn darparu gwybodaeth dechnegol fanwl yn ogystal ag ateb nifer o alwadau, yn ysgrifenedig a thros y ffôn, am wybodaeth ac eglurhad.

13. Roedd nifer o'r atebwyr wedi cymysgu'r enghreifftiau ym Mhennod 3 ac Atodiad 5 o'r papur ymgynghorol gyda'r 'gwir' setliad refeniw ar gyfer y flwyddyn nesaf. Mae'r adroddiad terfynol yn ymdrechu i atgoffa'r darllenwyr bod gwaith yr Is-grw^p Dosbarthu wedi ei wneud, o angenrhaid, cyn penderfynu ar setliad 2001-02. Ceisiwyd gwneud hyn yn glir yn Atodiad 5 o'r papur ymgynghorol. "Certain elements of the SSA formula are updated annually as part of the annual settlement process: These have not been taken to account in the exemplifications. It must be noted that these will nonetheless influence changes between the 2000-01 settlement and that for 2001-02. For some authorities, the following changes will have a larger effect on the overall SSA than the changes under the review." Mae Paragraff 2.iii o Atodiad 5 yn egluro: "The amount of changes will, of course, be affected by whatever change to total standard spending emerges from the National Assembly budget-setting process."

14. Mae'r crynodeb o adroddiad terfynol yr Is-grw^p Dosbarthu yn egluro sut y gwnaeth ymdrin â phob ymateb i'r ymgynghoriad. Cytunodd aelodau'r Is-grw^p y dylid rhoi sylw manwl i bob pwynt technegol, pa un ai un person a wnaeth y pwynt hwnnw neu fwy nag un person.

15. Oherwydd bod yr Is-grw^p wedi penderfynu na ellir rhoi ystyriaeth lawn i argymhellion Prifysgol Abertawe ar gyfer 2001-02, awgrymodd bod ei gylch gwaith yn 2001-02 yn caniatáu iddo wneud gwaith pellach ar y maes hwnnw, os caiff y fformwla newydd ei mabwysiadu (gweler Atodiad 4 o'r adroddiad terfynol). Mae'r adroddiad terfynol hefyd yn sôn am gasglu data, er enghraifft yn y gwasanaethau cymdeithasol, lle mae prinder data wedi atal argymhellion Prifysgol Abertawe rhag cael eu rhoi ar brawf yn llawn. Mae Grw^p Adnoddau, Cymdeithas Cyfarwyddwyr y Gwasanaethau Cymdeithasol wedi cynnig ei gymorth, lle'n briodol.

**Camau i'w cymryd**

16. MaeM Gwahoddir y Pwyllgor i gyflwyno'i sylwadau. Fe allai fynegi barn, yn benodol, ar rhan olaf yr adroddiad "Gwaith yn y Dyfodol": o ran y cwestiwn "sefydlogrwydd yn erbyn cywirdeb" (paragraff 74), gallai'r aelodau ystyried sylw yr Athro Murphy sef "er mwyn hyrwyddo cynllunio a sefydlogrwydd ariannol pan fydd fformwla derbyniol yn ei le, rwy'n credu y dylid cytuno i ohirio unrhyw newidiadau iddi tan y cyfnod adolygu nesaf (3-4 blynedd). Dylai hyn roi amser i'r gwaith ystadegol sydd angen ei wneud i gyfrannu gwybodaeth i'r broses.

**Dogfennau amgaeëdig**

17. Adroddiad Terfynol yr Is-grw^p Dosbarthu.

**Papurau Cysylltiedig**

18. Papur ymgynghorol yr Is-Grw^p Dosbarthu *Asesiad Gwariant Safonol yng Nghymru: Adroddiad yr Is-grw^p Dosbarthu*.

**Cyswllt**

19. Alan Thorton, Pennaeth, Is-adran Cyllid Llywodraeth Leol.